ASTUDIAETH ACHOS

# Cynnydd o 37% ym mherfformiad cenfaint o foch yn sgil cefnogaeth gan Menter Moch Cymru

**Menter Moch Cymru**

Developing the pig sector in Wales

Datblygu'r sector moch yng Nghymru



**"Rydyn ni mewn lle cymaint gwell gyda chenfaint effeithlon iawn oherwydd yr holl hyfforddiant a'r gefnogaeth. Rydyn ni'n hynod ffodus o gael Menter Moch Cymru yng Nghymru"**

Mae cynhyrchydd moch yn amcangyfrif bod ei genfaint o 25 hwch yn cynhyrchu 150 o foch bach yn ychwanegol y flwyddyn, cynnydd o dros 37% mewn perfformiad, o ganlyniad uniongyrchol i wybodaeth a gafodd ar fridio ac iechyd anifeiliaid drwy hyfforddiant Menter Moch Cymru.

Mae cynhyrchydd moch yn amcangyfrif bod ei genfaint o 25 hwch yn cynhyrchu 150 o foch bach yn ychwanegol y flwyddyn, cynnydd o dros 37% mewn perfformiad, o ganlyniad uniongyrchol i wybodaeth a gafodd ar fridio ac iechyd anifeiliaid drwy hyfforddiant Menter Moch Cymru.

Mae perfformiad cenfaint Kyle Holford a Lauren Smith o hychod Large Black x Duroc yn yr 20% uchaf ar gyfer cenfaint yn yr awyr agored, sy'n fwy arbennig gan eu bod yn cadw brîd prin o foch croes.

**"Drwy'r hyfforddiant a gawsom gan Menter Moch Cymru, yn benodol ynglŷn ag amseriad y paru, cyflwr corff yr hwch, rheoli'r geni a diddyfnu, rydym wedi dod yn llawer mwy effeithlon,"** meddai Kyle. **"Rydyn ni'n cynhyrchu tua 150 o foch bach yn ychwanegol y flwyddyn."**

Doedd gan Kyle a Lauren ddim cefndir mewn ffermio pan symudon nhw o Lundain i Forest Coalpit Farm, ger Y Fenni, yn 2014 i sefydlu cenfaint o foch, gan werthu'r cig i deulu a ffrindiau.

Erbyn hyn mae ganddynt 25 o hychod bridio sy'n cynhyrchu tua 550 o foch bach y flwyddyn, gyda'r cig yn cael ei farchnata'n uniongyrchol i siopau cig lleol ac yn Llundain.

Ers i Menter Moch Cymru gael ei lansio yn 2017, mae'r cwpl wedi bod yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael. **"Rydyn ni wedi elwa cymaint o'r rhaglen; mae wedi ein cefnogi drwy gydol ein taith,"** meddai Kyle.

Mae Kyle a Lauren wedi bod mewn 32 o'r sesiynau hyfforddi, yn amrywio o sesiynau ymarferol ar ddefnyddio ffrwythloni artiffisial i dorri a phrosesu cig. Mae'r hyfforddiant hwnnw wedi bod o fudd mawr gan fod ganddynt uned torri cig ar y fferm.

**"Gallaf gyfeirio'n benodol at bob un sgwrs a sut rydym wedi gwella ar hyn a'r agwedd honno ar y busnes o ganlyniad,"** meddai Kyle.

Agorodd eu huned brosesu ar y fferm ym mis Ebrill 2017. **"Rydyn ni'n dod â'r carcas cyfan yn ôl ac yn torri'r cig yma. Mae hyn nid yn unig yn arbed costau ond rydyn ni'n gallu cynhyrchu cig o safon yn union sut rydyn ni eisiau,"** esbonia Kyle.

Trwy fanteisio ar raglen Menter Moch Cymru, mae Kyle a Lauren nid yn unig wedi cael gwybodaeth helaeth am gynhyrchu moch ond maent hefyd wedi elwa ar un o'r adnoddau mwyaf gwerthfawr, sef cysylltiadau yn y diwydiant.

**"Mae'r gweminarau a'r hyfforddiant wedi ein rhoi mewn cysylltiad ag arbenigwyr, rhai o'r goreuon yn y diwydiant, pobl na fyddem byth wedi gwybod amdanynt oni bai am Menter Moch Cymru,"** meddai Kyle.

Mae'r cwpl hefyd wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn ymchwil werthfawr. Dangosodd treialon ymchwil diweddar ar y fferm, a gynhaliwyd gan Menter Moch Cymru a Chyswllt Ffermio, oedd yn ymchwilio i broffil asid brasterog cig moch mewn moch sy'n pori ar borfa amrywiol, gynnydd sylweddol mewn asid Linolenig (ALA).

Mae'n hysbys bod bwyta cynhyrchion sy'n cynnwys ALA o fudd mawr i bobl. Mae'n atal trawiadau ar y galon, yn gostwng pwysedd gwaed uchel a cholesterol ac yn gwrthdroi unrhyw galedu mewn pibellau gwaed. Dywed Kyle y gallai'r canlyniadau ganiatáu i'r busnes ychwanegu gwerth drwy gynnig pwynt gwerthu unigryw.

Mae Kyle a Lauren hefyd wedi manteisio ar deithiau astudio Menter Moch Cymru, i Gernyw yn 2018 ac i Ddyfnaint yn gynharach eleni.

**"Cawsom ein hysbyrydoli gan y ffermwyr y gwnaethom eu cyfarfod ynglŷn â'r hyn sy'n bosibl a'r ffaith ei bod yn bwysig defnyddio stori'r cynnyrch wrth farchnata. Dylanwadodd hynny ar y rhai oedd yn yr ymweliadau, gan ein hysgogi,"** meddai Kyle.

Derbyniodd y busnes gyllid hefyd gan Menter Moch Cymru ar gyfer Cynllun Iechyd y Genfaint. O ganlyniad uniongyrchol i hynny, cynyddodd y gymhareb effeithlonrwydd trosi porthiant 0.2.

Heb gefnogaeth Menter Moch Cymru, mae Kyle yn credu y byddai'r busnes mewn sefyllfa wahanol i'r un y mae ynddi heddiw.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government